# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**SLC(3) 03-09 (p3)**

## Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae Cymru (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru)

Papur i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â phwerau dirprwyedig - i'w ystyried gan y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog15.6(ii)

### 1. Diben

O dan Reol Sefydlog 15.6(ii) caiff y Pwyllgor ystyried pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru. Mae'r papur hwn yn nodi darpariaethau'r is-ddeddfwriaeth yn y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu (Cymru) i'w hystyried gan y Pwyllgor.

### 2. Cefndir

2.1 Ar 12 Rhagfyr 2007, bu'r Dr Dai Lloyd AC, yn llwyddiannus yn y trydydd balot deddfwriaeth i roi hawl i Aelodau ofyn caniatâd y Cynulliad i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod.

2.2 Cafodd y Mesur arfaethedig ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori ym mis Mai 2008, am gyfnod o bedair wythnos. Derbyniwyd 17 o ymatebion y gellir cael mynediad atynt yn: h

ttp://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-measures-playingfields/bus-legislation-measures-playingfields-responses.htm

. Cafodd y Mesur arfaethedig ei ddiwygio mewn sawl ffordd (nad oes yr un o'r newidiadau yn ymwneud â phwerau datganoledig) o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Gosodwyd y Mesur arfaethedig ar 18 Gorffennaf 2008, ynghyd â Memorandwm Esboniadol a Nodiadau Esboniadol. Mae proses Cyfnod 1 (ystyried a chytuno ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ) yn dechrau gyda thystiolaeth Dr. Lloyd i Bwyllgor Deddfwriaeth 1 ar 22 Ionawr 2009.

### 3. Cymhwyster Deddfwriaethol

3.1 Mae'r pŵer i wneud y Mesur hwn wedi'i gynnwys yn adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac mae cymhwyster y Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ar y mater hwn i'w weld ym Mater 12.5 (b) o Atodlen 5 i'r Ddeddf, fel a ganlyn:

Mater 12.5

### Darpariaeth ar gyfer y canlynol ac mewn cysylltiad â hwy -

(...)

(b) gwneud trefniadau gan yr awdurdodau perthnasol yng Nghymru i gynnwys wrth i'w swyddogaethau gael eu harfer bobl y mae arfer y swyddogaethau yn debyg o effeithio arnynt neu sy'n debyg o fod â buddiant yn y modd yr arferir y swyddogaethau hynny,

3.2 Mae mater 12.5 yn darparu bod y term "awdurdodau perthnasol yng Nghymru" yn cynnwys cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru ac awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru; mae'r cyfan o'r cyrff hyn yn dod o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig.

### 4. Cefndir y Polisi

Caiff y cefndir polisi i'r Mesur arfaethedig ei grynhoi yn y Memorandwm Esboniadol fel a ganlyn -

"1.2 Prif ddiben y Mesur arfaethedig yw gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ystyried yr effaith a gâi gwerthu caeau chwarae sy'n perthyn i'r awdurdodau lleol ar gymunedau lleol, yn nhermau iechyd, lles a chynhwysiant cymdeithasol, cyn iddyn nhw fwrw ymlaen i'w gwerthu neu i gael gwared arnyn nhw. Gan hynny, bydd y Mesur arfaethedig yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol (gan gynnwys y Parciau Cenedlaethol a chynghorau cymuned) i baratoi datganiadau o'r effaith ac ymgynghori arnyn nhw pan fyddan nhw'n cynnig cael gwared ar gaeau chwarae."

### 5. Pwerau Is-ddeddfwriaeth

5.1 Wrth gymharu'r Mesur arfaethedig hwn â Mesurau arfaethedig eraill y mae'r Pwyllgor wedi'u hystyried, ychydig o bwerau i wneud rheoliadau a gorchmynion y mae'r Mesur arfaethedig yn ei gynnwys. Manylion y rhain i ddilyn.

5.2 Mae Adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod sy'n bwriadu cael gwared ar gaeau chwarae yn hysbysu cyrff a phersonau penodol, yn cynnwys rhestr o ymgyngoreion a bennwyd ymlaen llaw, o'r bwriad hwnnw. Mae'r Atodlen i'r Mesur arfaethedig yn cynnwys

y rhestr honno. Mae Adran 4(2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r Atodlen o dro i dro. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio y byddai'n "briodol defnyddio is-ddeddfwriaeth i ddiwygio'r Atodlen, er mwyn osgoi'r angen i gyflwyno Mesur arfaethedig arall i roi'r newidiadau hynny ar waith." Mae Gorchmynion a wneir o dan adran 4(2) yn agored i'r weithdrefn gadarnhaol hy ni ellir gwneud y gorchymyn oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i osod gerbron y Cynulliad, ac wedi'i gymeradwyo ganddo.

Bydd angen i'r Pwyllgor ystyried a yw'n fodlon ar y drefn hon, neu a yw'n credu bod y drefn yn ormodol ar gyfer mater gweinyddol o'r fath, ac y byddai'r weithdrefn negyddol mewn gwirionedd yn ddigonol.

5.3 Mae Adran 9 yn darparu bod unrhyw bŵer i wneud gorchmynion neu reoliadau yn arferadwy drwy offeryn statudol a'i fod yn cynnwys pŵer i wneud darpariaethau'n gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol, i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol ac i wneud y darpariaethau cysylltiedig, darpariaethau atodol, darpariaethau arbed neu ddarpariaethau trosiannol a wêl Gweinidogion Cymru yn dda.

5.4 Mae Adran 10(1) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau y maent yn ystyried sy'n angenrheidiol neu'n gyfleus at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur arfaethedig, o ganlyniad iddi, neu i roi ei heffaith lawn iddi. Rhagwelir dau fath penodol o reoliadau yma; yn gyntaf, o dan Adran 10(2)(a), y rhai sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw Ddeddf Seneddol neu Fesur a gaiff ei wneud cyn neu yn ystod yr un flwyddyn Gynulliad â'r Mesur arfaethedig. Yn ail, o dan adran 10(2)(b), y rhai sy'n diwygio neu'n dirymu is-ddeddfwriaeth.

5.5 Mae rheoliadau a wnaethpwyd yn unol ag adrannau 10(2)(a) a (b) yn ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol. Mae rheoliadau o dan adran 10(2)(b) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol hy maent yn agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y "[b]yddai'n briodol defnyddio is-ddeddfwriaeth i wneud rheoliadau o dan adran 10 o gofio eu bod yn ymwneud â gwneud rhagor o ddarpariaethau atodol a chanlyniadol i roi eu heffaith lawn i ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig hwn." Ar y llaw arall, mae rheoliadau o dan adran 10(2)(a), sy'n diwygio neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol, yn agored i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r pwerau yn adran 10 yn gyffredin mewn deddfwriaeth, ac yn debyg i'r rhai sydd yn adran 51 o'r Mesur Llywodraeth Leol.

Bydd angen i'r Pwyllgor ystyried a yw'n fodlon gyda rhoi pwerau o'r fath yn yr achos hwn.

5.6 Daw tair adran (9, 10 a 11) o'r Mesur arfaethedig i rym pan gaiff y Mesur ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor. Daw'r darpariaethau sy'n weddill i rym ar unrhyw ddydd neu ddyddiau a benodir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn. Nid yw'r gorchmynion hyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn benodol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth.

### Camau gweithredu ar gyfer y Pwyllgor

**Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a yw'n dymuno, ac os felly sut, i roi ystyriaeth bellach i'r pwerau sydd i'w rhoi i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Mesur arfaethedig hwn. Yn benodol, bydd angen iddo ystyried a yw'n dymuno clywed gan Dr. Lloyd, ac efallai Llywodraeth y Cynulliad, cyn dod i gasgliad.**

Gwasanaethau Cyfreithiol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ionawr 2009